

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

200/51

GWYDDONIAETH: FFISEG

HAEN SYLFAENOL (Graddau G-C)

A.M. DYDD GWENER, 16 Mehefin 2006

(2 awr)

I'r Arholwr yn unig	
Cyfanswm y Marciau	

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur hwn, mae'n bosibl y bydd angen cyfrifiannell a phren mesur.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif arholiad yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag a ddarperir yn y llyfrynn hwn.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.


Atgoffir chi bod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus yn eich atebion.

Atgoffir chi y dylech ddangos eich holl waith cyfrifo. Rhoddir credyd am waith cyfrifo cywir hyd yn oed pan yw'r ateb terfynol a roddir yn anghywir.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag a ddarperir.

1. (a) Mae'r rhan fwyaf o orsafoedd trydan yn cynhyrchu trydan trwy losgi tanwydd. Dangosir y broses hon yn y diagram.



Llenwch y geiriau sydd ar goll yn y diagram.

[2]

- (b) Gellir cynhyrchu trydan hefyd trwy ddefnyddio ffynonellau egni adnewyddadwy.

[2]

Cysylltwch â llinell, bob ffynhonnell egni adnewyddadwy â'i phrif anfantaïs.

Mae un wedi cael ei wneud fel enghraifft.

Ffynhonnell egni adnewyddadwy

trydan dŵr

gwynt

solar

Anfantaïs



annibynadwy

mae angen boddi tir

caiff cynefinoedd ar lan yr afon eu dinistrio

nid yw'n gweithio yn y nos

2. Mae'r diagramau'n dangos trosglwyddiadau egni mewn dyfeisiau trydanol.



- (a) Enwch y math o egni sy'n cael ei wastraffu gan y ddwy ddyfais. [1]
- (b) (i) Defnyddiwch wybodaeth o'r diagram i ddarganfod egni mewnbwn y teledu. J [1]
- (ii) Defnyddiwch wybodaeth o'r diagram i ddarganfod cyfanswm egni allbwn defnyddiol y teledu. J [1]
- (c) Caiff effeithlonrwydd dyfais drydanol ei ddiffinio gan

$$\text{effeithlonrwydd} = \frac{\text{egni allbwn defnyddiol}}{\text{egni mewnbwn}} \times 100\%$$

Defnyddiwch wybodaeth o ran (b) i gwblhau'r cyfrifiad canlynol [1]

$$\text{Effeithlonrwydd y teledu} = \text{_____} \times 100\% = \text{_____ \%}$$

- (ch) Eglurwch sut mae gwybodaeth am y lamp yn dangos ei bod yn llai effeithlon na'r teledu. [1]
-

3. Mae'r tabl yn dangos pŵer dwy ddyfais drydanol.

Dyfais	Pŵer mewn watiau	Pŵer mewn cilowatiau
system <i>hi-fi</i>	100	0·1
tân	2·0

(i) Llenwch y bwlch yn y tabl. [1]

(ii) Defnyddiwch yr hafaliad

$$\text{Nifer yr unedau (kW awr)} = \text{pŵer (kW)} \times \text{amser (awr)}$$

i ddarganfod nifer yr unedau a ddefnyddir gan y system *hi-fi* mewn 4 awr. [1]

$$\text{Unedau a ddefnyddir} = \dots \text{ kW awr}$$

(iii) Mewn 4 awr, defnyddiodd y Tân 8 kW awr.

Defnyddiwch yr hafaliad

$$\text{cost} = \text{nifer yr unedau} \times 8c$$


i ddarganfod cost defnyddio'r Tân am yr amser hwn. [1]

$$\text{Cost} = \dots c$$

4. (a) Mae'r tabl yn dangos sut mae'r gyfradd cyfrifon o elfen ymbelydrol **X** yn newid gydag amser.

Amser (awr)	0	6	12	18	24	30
Cyfradd cyfrifon (unedau)	800	400	200	100	50	25

Cyfradd cyfrifon (unedau)



- (i) Plotiwch y pwyntiau hyn ar y grid a'u cysylltu â chromlin lefn. [3]
 Mae'r ddua bwynt olaf wedi'u plotio i chi.

- (ii) Beth sy'n digwydd i'r gyfradd cyfrifon wrth i'r elfen ymbelydrol fynd yn hŷn? [1]
-

- (iii) Defnyddiwch y tabl neu'r graff i ddarganfod yr amser mae'n ei gymryd i'r gyfradd cyfrifon leihau o 200 uned i 100 uned. [1]

Amser a gymerir = awr

- (iv) Nodwch hanner oes elfen **X**. [1]

(b) Mae'r tabl yn rhoi gwybodaeth am dair elfen ymbelydrol.

Elfen ymbelydrol	Hanner oes	Ymbelydredd a allyrrir
Ffosfforws	14 diwrnod	beta (β)
Senon	5 diwrnod	gama (γ)
Radon	55 eiliad	alffa(α)

- (i) Pa elfen ymbelydrol sy'n allyrru ymbelydredd ar ffurf tonnau? [1]
- (ii) Mae gan bob un o'r elfennau ymbelydrol yr un gyfradd cyfrifon nawr.
Rhowch reswm pam y bydd gan radon y gyfradd cyfrifon isaf ymhen 14 diwrnod. [1]
-
-

5. Mae'r tabl yn dangos sut mae'r amser ar gyfer un orbit lloeren yn dibynnu ar ei huchder uwchben arwyneb y Ddaear.

Lloeren	Uchder uwchben arwyneb y Ddaear (miloedd o km)	Amser ar gyfer un orbit (awr)
X	20	12
Y	36	24
Z	48	36


- (a) (i) Nodwch sut mae'r amser ar gyfer un orbit yn newid wrth i'r uchder uwchben arwyneb y Ddaear gynyddu. [1]

.....
.....
.....

(ii) Pa loeren, X, Y neu Z, sydd mewn orbit geosefydlog? [1]


- (b) Rhowch reswm pam mae lloeren mewn orbit geosefydlog yn aros uwchben yr un pwynt ar y Ddaear. [1]

- (c) Mae'r diagram yn dangos lloeren geosefydlog mewn orbit o amgylch y Ddaear.



Ychwanegwch at y diagram i ddangos sut y gellir anfon signal o A i B. [1]


6. (a) Mae'r diagram yn dangos golau yn teithio o wydr i mewn i aer.



Pa belydryn, **X**, **Y** neu **Z**, sy'n dangos llwybr cywir y golau yn yr aer?

[1]


- (b) (i) Ar rai onglau, mae'r golau i gyd yn adlewyrchu oddi ar yr arwyneb.
Dangosir hyn yn y diagram isod.



Cwblhewch y frawddeg isod.

Mae'r diagram hwn yn dangos adlewyrchiad
golau. [1]

- (ii) Mae'r diagram yn dangos sut y defnyddir yr effaith yn (b)(i) ar feiciau ac mewn "llygaid cathod" ar y ffordd.
Cwblhewch y diagram i ddangos sut mae golau yn mynd trwy'r adlewyrchydd. [2]




7. (a) (i) Pan gaiff balŵn ei rwbio ar siwmper, caiff wefr negatif â thrydan statig.

Pa ronynnau, **protonau**, **electronau** neu **niwtronau**, sydd wedi symud o'r siwmper i'r balŵn? [1]



.....

- (ii) Ym mhob un o'r blychau isod, cwblhewch y brawddegau i ddweud a yw'r gwrthrychau'n **gwrthryrru**, yn **atynnu** neu'n **gwneud dim byd**. [2]



Mae'r gwrthrychau hyn yn

.....



Mae'r gwrthrychau hyn yn

.....

- (b) Defnyddir trydan statig wrth chwistrellu cyrff ceir â phaent.

Rhoddir gwefr positif ar gorff y car.

Rhoddir gwefr negatif ar y defnynnau (*droplets*) o baent.



Rhowch **ddwy** fantais o roi gwefr negatif ar yr holl ddefnynnau o baent. [2]

(i)

.....

(ii)

.....

8. Mae'r tabl yn dangos gwybodaeth am **dri** modur trydan, **A**, **B** a **C**. Fe'u defnyddir i godi llwythi.

Modur	Gwaith a wneir (J)	Amser codi (s)	Gwaith a wneir bob eiliad (W)
A	100	4	25
B	150	3
C	200	25

- (i) **Llenwch y bylchau** yn y tabl. [2]
 (ii) Nodwch pa ddua fodur, **A**, **B** neu **C**, sy'n cynhyrchu'r un pŵer. [1]

..... a

3

9. Defnyddiwch y geiriau yn y blwch i gwblhau'r brawddegau isod.


bydysawd	galaeth	cysawd yr haul	Llwybr Llaethog
----------	---------	----------------	-----------------

- (i) Mae'r Haul yng nghanol [1]
 (ii) Mae'r Haul yn un o'r sêr yng ngalaeth y [1]
 (iii) Mae biliynau o alaethau yn y [1]

3

10. Caiff car model ei yrru gan fodur trydan.

Mae'r diagram yn dangos modur syml.



(i) **Ychwanegwch saeth** at y diagram i ddangos cyfeiriad y cerrynt yn y gylched. [1]


(ii) Caiff y gwrthydd newidiol ei newid i **gynyddu** y cerrynt trwy'r modur.

Nodwch beth sy'n digwydd i rym **F**. [1]


(iii) Nodwch **un** newid i'r **coil**, i wneud y grym yn fwy. [1]

(iv) Nodwch **un** newid a fyddai'n gwneud i rym **F** weithredu tuag i lawr. [1]

11. Dangosir isod y gylched a ddefnyddir i ddarganfod gwrthiant gwifren.



- (a) (i) Enwch fesurydd **X**. [1]
- (ii) Enwch fesurydd **Y**. [1]
- (b) Edrychwch yn ofalus ar y graffiau ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.



- (i) Pa graff, **P**, **Q**, **R** neu **S**, sy'n dangos bod gwrthiant yn cynyddu'n unffurf (*uniformly*) wrth i hyd y wifren gynyddu? [1]
- (ii) Pa graff, **P**, **Q**, **R** neu **S**, sy'n dangos bod gwrthiant yn lleihau'n anunffurf (*non-uniformly*) wrth i drwch y wifren gynyddu? [1]

4


12. Mae'r diagram cylched yn dangos lampau wedi'u cysylltu mewn cylched.

Dangosir y cerrynt trwy rai o'r lampau.

Dangosir y foltedd ar draws rhai o'r lampau.

Llenwch y gwerthoedd sydd ar goll.

[4]



4

13. Caiff golau melyn ei wneud trwy gymysgu golau coch a golau gwyrdd.

- (a) Enwch liw'r golau y mae angen ei gymysgu â golau melyn i wneud golau gwyn.

[1]

.....

- (b) Pan gaiff golau melyn ei ddisgleirio ar wrthrych (*object*) coch, caiff y golau coch ei adlewyrchu ond caiff y golau gwyrdd ei amsugno.

- (i) Nodwch beth sy'n digwydd pan gaiff golau melyn ei ddisgleirio ar wrthrych gwyrdd.

[2]

.....

.....

- (ii) Nodwch beth sy'n digwydd pan gaiff golau melyn ei ddisgleirio ar wrthrych glas. [1]

.....

.....

4


14. (a) Y symbol ar gyfer aur yw $^{197}_{79}\text{Au}$.

- (i) Nodwch nifer y protonau mewn atom aur. [1]
- (ii) Darganfyddwch nifer y niwtronau mewn atom aur. [1]

Nifer y niwtronau =

(b) Yn arbrawf gwasgaru gronynnau alffa Rutherford, cafodd gronynnau alffa eu gyrru trwy ffoil aur tenau.

Dangosodd y canlyniadau i'r rhan fwyaf o'r gronynnau alffa fynd yn syth trwedd (fel gronyn alffa **B** yn y diagram). Cafodd rhai gronynnau alffa eu gwyo (*deflected*) trwy onglau bach (fel gronyn alffa **A**). Cafodd ychydig iawn o ronynnau alffa eu gwyo trwy ongl fawr (fel gronyn alffa **C**).



Cwblhewch y brawddegau isod trwy ddefnyddio gair addas o'r blwch.

Gellir defnyddio pob gair unwaith, fwy nag unwaith neu ddim o gwbl.

llawn	proton	niwclews	gofod	niwtron
-------	--------	----------	-------	---------

- (i) Aeth y rhan fwyaf o'r gronynnau alffa yn syth trwedd oherwydd bod y rhan fwyaf o'r atom yn [1]
- (ii) Caiff mäs yr atom ei grynhoi yn y [1]
- (iii) Mae'r wefr positif i'w chael yn yr atom. [1]

15. Rhai o ranbarthau'r sbectrwm electromagnetig yw **tonnau radio, golau gweladwy, microdonnau, pelydrau-X a phelydrau gama.**

- (a) (i) Enwch y **ddau** ranbarth yn y sbectrwm electromagnetig **nad** ydynt wedi'u cynnwys yn y frawddeg uchod. [2]

..... ac

- (ii) Enwch y rhanbarth yn y sbectrwm electromagnetig sydd â'r amledd isaf. [1]

.....

- (iii) Nodwch **un** briodwedd sy'n gyffredin i bob rhanbarth yn y sbectrwm electromagnetig. [1]


.....

- (b) Defnyddir microdonnau ar gyfer coginio.
Rhowch ddefnydd **arall** ar gyfer microdonnau. [1]

.....


5

16. Mae'r diagram yn dangos y tu mewn i blwg.



- (a) (i) Nodwch liw'r wifren sydd wedi'i chysylltu â therfynell **X**.
- (ii) Enwch derfynell **Y**. [2]
- (b) Defnyddir torwyr cylchedau fel dyfeisiau diogelwch mewn llawer o gartrefi. Maent yn 'torri' y gylched drydanol pan fydd nam yn cael ei ddarganfod. Y torwyr cylchedau a ddefnyddir gan amlaf yw'r torwyr cylchedau bach a'r torwyr cylchedau gollwng i'r ddaear.
- (i) Nodwch y math o nam a fyddai'n peri i dorrwr cylched bach dorri'r gylched.
-
- (ii) Nodwch y math o nam a fyddai'n peri i dorrwr cylched gollwng i'r ddaear dorri'r gylched.
- [2]
- (c) Nodwch **ddwy** fantais sydd gan dorwyr cylchedau bach dros ffiwsiau. [2]
- (i)
- (ii)

17. Mae'r diagram yn dangos sut y caiff trydan ei anfon o orsafoedd trydan at y defnyddwyr gan y Grid Cenedlaethol.



Mae T_1 , T_2 , T_3 a T_4 yn is-orsafoedd trydan sy'n defnyddio newidyddion i 'godi' neu 'ostwng' y foltedd eiledol.

- (a) Beth yw'r Grid Cenedlaethol? [2]

.....
.....
.....

- (b) Defnyddiwch y wybodaeth yn y diagram i:


- (i) nodi pa is-orsaf, T_1 , T_2 , T_3 neu T_4 , sy'n defnyddio newidyddion codi;
(ii) nodi pa is-orsafoedd sy'n defnyddio newidyddion gostwng.

..... [3]

- (c) Eglurwch pam y defnyddir folteddau eiledol trwy'r Grid Cenedlaethol i gyd. [1]

.....
.....

18. Mae'r diagram yn dangos ton yn teithio ar draws arwyneb dŵr.



(a) **Dangoswch yn glir** â saeth wedi'i labelu

- (i) osgled y don [O],
- (ii) tonfedd y don [T].

[2]

- (b) (i) Ysgrifennwch nifer y tonnau (cylchredau) rhwng **X** ac **Y**.
- (ii) Cyfrifwch donfedd y don os yw pellter **XY** yn 250 cm.

$$\text{Tonfedd} = \dots \text{cm}$$

[2]


- (c) (i) Eglurwch beth a olygir wrth amledd ton.
-

- (ii) Petai aflonyddwch ar y don (*wave disturbance*) yn **X** yn cymryd 0.5 s i deithio i **Y**, cyfrifwch amledd y don.

$$\text{Amledd} = \dots \text{Hz}$$

[3]

19. Mae'r diagram yn cynrychioli trychiad (*section*) trwy adeilad ac mae'n dangos wal geudod ochr yr adeilad.



- (a) Eglurwch pam mae ewyn polystyren yn lleihau **dargludiad a darfudiad** yn y ceudod.
 [Mae un marc ar gael ar gyfer ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig] [2+1]
-

- (b) Nodwch **ddwy** ffordd arall i leihau colli gwres o'r adeilad. [2]

(i)


.....

(ii)

.....

20. Caiff cerrynt trwy lamp 12 V ei fesur ar folteddau gwahanol.
 Mae'r canlyniadau wedi'u plotio ar y graff isod.

Cerrynt (A)



- (a) Disgrifiwch sut mae'r cerrynt yn newid wrth i'r foltedd gael ei gynyddu o 3 V i 14 V. [2]
-
-


- (b) (i) Darganfyddwch y cerrynt trwy'r lamp ar 12 V. [1]

- (ii) Ysgrifennwch, mewn geiriau, hafaliad sy'n cysylltu **gwrthiant, cerrynt a foltedd**. [1]
-
-

- (iii) Cyfrifwch wrthiant ffilament y lamp ar ei foltedd gweithredu, sef 12 V. [2]

Gwrthiant = Ω

21. Mae pedwar plentyn yn cystadlu mewn ras gyfnewid 400 m.
Mae pob plentyn yn rhedeg 100 m.
 Mae'r graff yn dangos gwybodaeth ar gyfer 300 m cyntaf y ras.




- (a) Faint o amser a gymerodd y **plentyn cyntaf** i redeg **100 m?** [1]
- (b) Cyfanswm yr amser i gwblhau'r ras 400 m oedd 55 s.
Defnyddiwch y wybodaeth hon i gwblhau'r graff. [1]
- (c) (i) Ysgrifennwch, mewn geiriau, hafaliad sy'n cysylltu **pellter, buanedd ac amser.** [1]
-
-
- (ii) Cyfrifwch y buanedd cyfartalog (cymedrig) ar gyfer y ras. [2]

Buanedd cyfartalog = m/s

5

22. Mae'r diagram yn dangos sbaner yn cael ei ddefnyddio i dynhau bollt.



Mae grym ar ben y sbaner yn cynhyrchu **moment** o amgylch y follt.

- (a) (i) Cwblhewch yr hafaliad isod, mewn geiriau, i ddarganfod moment grym. [1]


$$\text{moment} =$$

- (ii) Yn y diagram uchod, os yw'r grym yn 60 N a'r pellter yn 0.2 m , cyfrifwch foment y grym o amgylch y follt. [2]

$$\text{Moment} = \dots \text{Nm}$$

- (b) Eglurwch pam mae'n haws tynhau'r follt os caiff sbaner hirach ei ddefnyddio. [2]

23. Mae'r diagram yn dangos y grymoedd sy'n gweithredu ar blymiwr awyr **yn ystod ei gwympl**.



- (a) Ticiwch (✓) y blwch o dan yr ymadrodd sy'n cwblhau pob brawddeg yn gywir. Mae'r frawddeg gyntaf wedi'i chwblhau i chi. [2]


		yn sero	tuag i fyny ac yn cynyddu	tuag i fyny ac yn lleihau	tuag i fyny ac yn gyson	tuag i lawr ac yn cynyddu	tuag i lawr ac yn lleihau	tuag i lawr ac yn gyson
(i)	Pan fydd y plymiwr awyr yn cyflymu, mae ei bwysau...							✓
(ii)	Pan fydd y plymiwr awyr yn cyflymu, mae ei buanedd...							
(iii)	Pan fydd y plymiwr awyr yn cyflymu, mae'r llusgiad arno...							

- (b) Gan ddefnyddio **un** o'r penawdau o'r tabl uchod, cwblhewch **bob un** o'r brawddegau isod.


- (i) Mae'r buanedd ar gyflymder terfynol
- (ii) Mae'r grym cyflymu sydd ar y plymiwr awyr pan fydd yn teithio ar ei gyflymder terfynol
- (iii) Mae'r grym llusgiad sydd ar y plymiwr awyr pan fydd yn teithio ar ei gyflymder terfynol

[3]

24. Pan gaiff ffoil alwminiwm ei wneud, caiff ei drwch ei wirio'n aml gan ddefnyddio'r trefniant canlynol.



Cyfrifon y funud



Mae'r graff yn dangos y darlleniedau a gynhyrchwyd gan y canfodydd dros gyfnod o 12 awr wrth gynhyrchu swp (*batch*) o ffoil.

- (a) (i) Amcangyfrifwch, o'r graff, yr amser pan newidiodd trwch y ffoil am y tro cyntaf. [1]

$$\text{Amser} = \dots \text{ awr}$$

- (ii) Defnyddiwch wybodaeth o'r graff i egluro sut y newidiodd y trwch. [2]
-
.....
.....


- (b) (i) Eglurwch pam y byddai ffynhonnell ymbelydredd o yn anaddas ar gyfer y dasg hon.
-
.....

- (ii) Eglurwch pam y byddai ffynhonnell ymbelydredd γ hefyd yn anaddas ar gyfer y dasg hon.
-
.....

25. Caiff dyfais ddiogelwch o'r enw **switsh gogwydd** ei osod ar wresogydd trydan. Os caiff y gwresogydd ei fwrw drosodd, bydd yn diffodd yn awtomatig.

Pan fydd y gwresogydd yn sefyll i fyny, mae'r switsh gogwydd i ffwrdd (rhesymeg **0**). Pan gaiff y gwresogydd ei fwrw drosodd, mae'r switsh gogwydd ymlaen (rhesymeg **1**).

Mae rheolydd y gwresogydd fel a ddangosir yn y diagram bloc canlynol.



(a) Yn y diagram bloc:

(i) enwch synhwyr ydd mewnbwn;

(ii) enwch brosesydd.

[2]

(b) Cwblhewch y wirlen ar gyfer y gylched.
Mae'r ddwy linell gyntaf wedi'u cwblhau i chi.

[2]

Prif switsh	Switsh gogwydd	Allbwn adwy A	Allbwn adwy B	Sefyllfa'r gwresogydd (I FFWRDD/YMLAEN)
0	0	1	0	I FFWRDD
0	1	0	0	I FFWRDD
1	0
1	1	0

(c) Nodwch bwrpas y relái.

[1]